# Yr Oen Buddugol



**Ar flaen y daflen hon, gwelwn lun o Oen Buddugol a fyddai'n haeddu gwobr cyntaf mewn unrhyw sioe.**

**Dwi'n siwr y byddai unrhyw ffermwr defaid yn falch iawn i'w berchen.**

**Ond, darllenydd annwyl, dwi am ddweud wrthoch am Oen arall,**

## *Oen Duw*

**Allai Ioan Fedyddiwr ddweud tra'n cerdded ar lan afon Iorddonen, *"Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd".*[1]**

**Ie, ddarllenydd annwyl, pechod yr holl fyd – mae hynny'n golygu eich pechodau chwi, a'm mhechodau innau. *"Oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ôl am ogoniant Duw",*[2] ac mai *"cyflog pechod yw marwolaeth".*[3]**

**Yn ystod dyddiau'r Hen Destament, cyn**

genedigaeth ein H'Arglwydd Iesu Grist, gwnaeth pobl gynnig sawl aberth dros eu pechodau. Gorfod i ŵyn, bustych, ac anifeiliaid eraill eu lladd; gorfod i lawer o waed ei dywallt. Rhaid oedd lladd yr anifeiliaid yn gyson, ond ni allai un aberth olchi ymaith pechod y bobl.

Annwyl ddarllenydd, dw'i am ddweud wrthych am Un a rhoddodd Ei Hun fel aberth dros lawer. *"Eithr hwn, wedi offrymu un aberth dros bechodau".*[4] Fe farwodd yr Arglwydd Iesu Grist ar y groes ar Galfaria er eich mwyn chwi, ac er fy mwyn i.

Pe buasem yn cydnabod ein pechodau gerbron Duw, a chredu bod yr Arglwydd Iesus Grist wedi marw i'n rhyddhau ni, cawn maddeuant o'n pechodau. *"Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi Ef o feirw, cadwedig fyddi".*[5]

Ie, cadwedig. Wedi eich achub rhag y digofaint i ddod. Bydd barnedigaeth Duw yn disgyn ar bawb sydd heb gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist. Pawb sydd heb eu achub.

Annwyl ddarllenydd, mae'n bosib na fyddwch byth yn berchen ar yr Oen buddugol sydd ar flaen y daflen hon, ond mae *Oen Duw,* yr Arglwydd Iesu Grist, yn gallu bod yn Waredwr i chi, dim ond os ddewch ato fel pechadur edifeiriol.

> *"Yr hyn oll y mae'r Tad yn ei roddi i mi, a ddaw ataf fi: a'r hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim".*[6] *"Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd".*[1]

*Cyfeiriadau Beiblaidd:*

1. *Ioan 1:29*
2. *Rhufeiniaid 3:23*
3. *Rhufeiniaid 6:23*
4. *Hebreaid 10:12*
5. *Rhufeiniaid 10:9*
6. *Ioan 6:37*

*John Davies (1970-2010) – Fferm Gelli Fawr – Ysgrifennwyd Chwefror 2010*